CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Trawsgydymffurfio: safonau lles moch (SMR 12) (2025)

Crynodeb o'r rheolau lles ar gyfer moch.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Rhagfyr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Rhagfyr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-moch-smr-12-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru#159605)

**Y prif ofynion** (https://www.llyw.cymru#159607)

**Arfer da** (https://www.llyw.cymru#159609)

**Archwiliadau maes** (https://www.llyw.cymru#159611)

**Gwybodaeth pellach** (https://www.llyw.cymru#159613)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-moch-smr-12-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cyflwyniad

Amcan y gofynion hyn yw diogelu lles moch trwy bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer eu cadw a gofalu amdanyn nhw. Rhaid i bawb sy'n cadw moch gadw  at y rheolau hyn, yn ogystal â'r gofynion lles anifeiliaid fferm (SMR 13).

# Y prif ofynion

- rhaid cadw hychod a banwesi mewn grwpiau
- os oes gennych lai na 10 hwch, gallwch gadw hychod a banwesi ar eu pen eu hunain cyn belled â bod eu llociau'n bodloni'r safonau cyffredinol (gweler 'Y Lloc')
- gellir cadw hychod ar eu pen eu hunain, o 7 niwrnod cyn diwrnod geni'r perchyll tan fod y perchyll wedi cael eu diddyfnu'n llwyr

Os ydych yn defnyddio system llociau porchella, rhaid darparu gwres i'r perchyll a lle solid, sych a chyfforddus lle gallant i gyd orwedd gyda'i gilydd yr un pryd, oddi wrth yr hwch.

Rhaid i ran o'r llawr lle cedwir y perchyll, sy'n ddigon mawr iddynt allu gorwedd arno gyda'i gilydd yr un pryd, fod yn solid neu wedi'i orchuddo â mat neu â gwellt neu ddeunydd addas arall.

Mae safonau penodol ar gyfer moch sy'n cael eu cadw i mewn ar gyfer eu magu a'u pesgi. Y gofynion hyn yw:

Mae'n rhaid i'r mochyn allu troi o gwmpas heb drafferth bob amser. Peidiwch byth â chlymu'ch moch ac eithrio os ydynt  yn cael eu harchwilio, yn cael profion, triniaeth neu  lawwdriniaeth at ddibenion milfeddygol. Rhaid i'r tennyn ateb y gofynion canlynol:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-moch-smr-12-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

- ni ddylai achosi niwed i'r mochyn a dylech ei archwilio'n rheolaidd a'i addasu yn ôl y gofyn iddo ffitio'n gyfforddus
- bydd y tennyn yn ddigon hir i'r mochyn allu troi o gwmpas, gorffwys a llyfu ei hun, ac ni fydd yn gallu tagu, anafu nac achosi poen i'r mochyn

# Arfer da

## Tocio cynffonnau

Ni ganiateir tocio cynffonnau fel mater o drefn. Gellir tocio cynffonnau dim ond pan fydd mesurau i wella amodau amgylcheddol neu systemau rheoli wedi eu cyflawni gyntaf i atal brathu cynffonnau, ond ble y mae tystiolaeth o hyd i ddangos bod niwed i gynffonnau moch drwy frathu wedi digwydd.

## Y lloc

- bydd wedi'i adeiladu fel bod pob mochyn yn gallu:
    - sefyll, gorwedd a gorffwys heb drafferth
    - cael lle glân, cyfforddus a sych i orffwys arno
    - gweld moch eraill, oni bai bod y mochyn wedi'i ynysu am resymau milfeddygol neu yn yr wythnos cyn y disgwylir iddi eni ei pherchyll ac yn ystod geni, pan y gellir cadw'r hychod a'r banwesi i ffwrdd o foch eraill
    - cadw tymheredd cyfforddus
    - cael digon i le i orwedd yr un pryd
    - cael mynd bob amser at ddeunydd y gall tyrchu ynddo a'i droi
    - cael at ddigon o ddŵr yfed ffres bob amser pan fydd dros bythefnos oed
- ni fydd mesuriadau unrhyw stâl neu loc ar gyfer moch unigol yn llai na hyd y mochyn wedi'i luosi â'i hun ac ni fydd unrhyw ochr fewnol yn llai na 75% o hyd y mochyn, bydd hyd y mochyn yn cael ei fesur o flaen ei swch at fôn ei gynffon pan fydd yn sefyll â'i gefn yn syth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-moch-smr-12-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

- ni fydd y paragraff uchod yn gymwys i hwch/ banwes am y cyfnod o saith niwrnod cyn y diwrnod y disgwylir iddi eni ei pherchyll tan y diwrnod pan gaiff ei pherchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll maeth) eu diddyfnu

Cewch fwy o wybodaeth am lociau moch yn y **Lles moch: côd ymarfer** (https://www.llyw.cymru/lles-moch-cod-ymarfer)

## Archwiliadau maes

- gofalu fod y lloc yn ateb y gofynion yn y côd ymarfer
- gofalu fod gan y ffermwr neu'r ceidwad gopi  o'r côd ymarfer

## Gwybodaeth pellach

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

neu gweler y daflen **Trawsgydymffurfio: cysylltiadau defnyddiol (2025)** (https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-cysylltiadau-defnyddiol-2025) o fewn y pecyn hwn.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-moch-smr-12-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).